Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Chwefror 6ed, 2024 yn Neuadd Goffa Penbryn/ *Minutes of* **Penbryn Community Council** *Meeting held on Tuesday, February 6th at Penbryn Memorial Hall.*

Yn bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* Delfryn Owens, Caerwyn Owen, Gwyn James, Gareth Evans, Teifi Davies, Walwyn Jones, Barri Davies, William Anwyl.

**1 <u>Ymddiheuriadau/Apologies</u>**

Cynghorwyr/*Councillors* Jonathan Rees, Melva Phillips.

**2 <u>Materion Personol/Personal Matters</u>**

Dim Materion Perthnasol/*No Relevant Matters*

**3 <u>Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 10/1/24</u>**

Cynnig gan Gwyn eu bod yn gywir a'i eilio gan Caerwyn.
*Motioned to be correct by Gwyn and seconded by Caerwyn.*

**4 <u>Materion yn Codi/Matters Arising</u>**

i) Sedd Wag ar y Cyngor/*Vacancy on Council*

Cysylltodd y Clerc â Swyddfa Etholiadol y Cyngor Sir gan dderbyn yr hysbysiadau swyddogol oddi wrthynt i'w harddangos am gyfnod o 3 wythnos. Yn dilyn y cyfnod hwn, byddwn un ai yn ethol aelod newydd neu mewn modd i gyfethol aelod ein hunain. Y dyddiad cau ar gyfer ymholiadau yw Chwefror 14eg.

*The Clerk contacted the County Council's Electoral Office and received official notification posters to be exhibited for a 3 week period. Following this period, we will either be electing a new member or be in a position to co-opt a member ourselves. The date for applying expires on February 14th.*

ii) Rhagor o Lofnodwyr/*Need for more Signatories*

Derbyniodd y Clerc ffurflen oddi wrth **Bank of Scotland** er mwyn cofrestru rhagor o lofnodwyr. Awgrymwyd dau ychwanegol a chytunodd Barri, gyda Jonathan, yn amodol, am nad oedd yn bresennol, i fod y ddau hynny.

*The clerk received a form from* **Bank of Scotland** *to register more signatories. It was suggested that an additional 2 were needed, with Barri consenting, along with Jonathan, provisionally, as he wasn't present at the meeting.*

**iii)** Y Praesept/*The Precept*

Cyflwynwyd Praesept terfynol y Cyngor Cymuned i'r Cyngor Sir ganol mis Ionawr, gan gadarnhau penderfyniad y Cyngor i'w osod ar gyfanswm o £12500 ar gyfer 2024/25.

*The Community Council's final Praesept was presented to the County Council mid January, thus confirming the Council's decision to set it at a total of £12500 for 2024/25.*

iv) Gwasanaeth Beic Gwaed/*Blood Bike Service*

Yn dilyn ein rhodd ddiweddar at yr achos, gofynnwyd a oeddem eisiau llun wedi'i dynnu wrth gyflwyno'r siec. Cytunwyd ar yr egwyddor gan awgrymu o bosibl y byddai mis Ebrill yn well adeg i'w dynnu.

*Following our recent donation to the cause, we were asked whether we wanted an official photograph of the presentation. It was agreed in principle and suggested possibly that April would be a more appropriate time.*

v) Rhaglen Hyfforddiant/*Training Programme*

Yn dilyn llunio rhaglen hyfforddiant, mae sesiwn Delfryn wedi'i ohirio am y tro oherwydd diffyg niferoedd, tra bod Jonathan yn bwriadu mynychu un arall yn hwyrach yn y mis.

*Since preparing a training programme, Delfryn's proposed session was postponed due to lack of numbers, while Jonathan intends to attend another later on this month.*

vi) Digwyddiad ger Glynarthen/*Incident near Glynarthen*

Yn dilyn adroddiad a thystiolaeth Melva ynghylch y digwyddiad hwn ger Maes Carafanau Woodlands, anfonwyd adroddiad ar ran y Cyngor Cymuned at adran Clic y Cyngor Sir. Ni dderbyniwyd ymateb eto.

*Following Melva's report and evidence regarding this incident not far from Woodlands Caravan Park, a report was sent by the Clerk to the Clic service at the County Council. No response has yet been received.*

**5 <u>Cyllid/Finance</u>**

i) Balans y Cyfrif/*Account Balance*

Heb unrhyw wariant ychwanegol, mae'r balans yn parhau i fod yn £11461.99.

*Without any further expenditure, the balance remains at £11461.99.*

ii) Yswiriant y Cyngor Cymuned/ Community Council Insurance

Derbyniwyd anfoneb yn nodi'r gost o adnewyddu ein Yswiriant gyda chwmni Clear Insurance. Y cyfanswm yw £647.54 ac er bod y gost wedi cynyddu ers y llynedd, cytunwyd yn unfrydol i'w adnewyddu.

*An invoice was received from our insurance broker, Clear Insurance. The renewal cost is £647.54, an increase on last year's total. In spite of this increase, unanimously agreed to renew our present policy.*

**6 <u>Cynllunio/Planning</u>**

i) A240056 Brynawelon, Sarnau

DIM GWRTHWYNEBIAD/*NO OBJECTIONS*

ii) A240031 Brynmorwel, Brynhoffnant

DIM GWRTHWYNEBIAD/*NO OBJECTIONS*

Yn enwedig nawr bod terfyn cyflymder o 20 mya.

Especially now that 20 mph speed limit is applied.

**7 <u>Gohebiaeth/Correspondence</u>**

i) Ambiwlans Awyr Cymru/*Wales Air Ambulance*

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth ymgyrchwyr sydd o blaid cadw safle'r gwasanaeth hwn yn Y Trallwng yn agored. Mae hwn yn wasanaeth hynod werthfawr i ardaloedd gwledig yn arbennig. Y pryder yw y bydd y safle hwn yn cael ei gau. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd aros i weld beth fydd y penderfyniad terfynol.

*Correspondence was received from campaigners who support keeping this service's base at Welshpool open. This is a vital resource for all rural areas.*

*There is concern regarding its future. Following a discussion, it was decided to wait pending a final decision.*

ii) Arolwg Bancio/*Banking Survey*

Yn dilyn y pryder ynghylch dyfodol bancio yn y Gymru wledig, mae Ben Lake A.S Ceredigion wedi lansio arolwg i grynhoi profiadau cymdeithasau o ymwneud â banciau. Cytunodd yr aelodau y byddai'r Clerc yn cwblhau'r arolwg ar ran y Cyngor.

*In the wake of concern regarding the future of banking in rural areas, Ben Lake M.P for Ceredigion has launched a survey to collect society's experiences of dealing with banks. The members agreed that the Clerk would complete the survey on behalf of the Council.*

**8 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

i) Meinciau Tresaith/*Benches at Tresaith*

Nodwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf fod angen 2 fainc newydd ar Dresaith. Gyda Phwyllgor Lles Tresaith ar fin cyfarfod cyn bo hir, teimlid mai dyma'r adeg i gael y maen i'r wal. Cefnogwyd cais i'w hannog i gyflwyno cais ffurfiol am y meinciau newydd hyn gyda chymorth y Cyngor Cymuned.

*It was noted during last month's meeting that Tresaith needed 2 new benches. With Tresaith Welfare Committee due to meet soon, it was felt it was the appropriate time to act. It was unanimously supported that the Welfare Committee be encouraged to submit a formal request for these benches, with the support of the Community Council.*

ii) Cyflog y Clerc/*Clerk's Salary*

Cynigiwyd gan Delfryn y dylid dechrau talu cyflog y Clerc, er nad oes cytundeb wedi'i arwyddo. Awgrymodd y dylid talu cyfanswm o £3000 tuag at ei gyflog, gan dalu'r gwahaniaeth yn nes ymlaen pe bai angen. Cymeradwyd y cynnig yn unfrydol gan yr aelodau gyda Walwyn yn cynnig a Gwyn yn eilio.

*Delfryn proposed that the Council should start paying the Clerk's salary, even though no contract has been formally signed. He suggested an initial payment of £3000, with any outstanding salary to be paid at a later date. This proposal was unanimously supported with Walwyn proposing and seconded by Gwyn.*

**9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Mawrth 5ed am 7.30 y.h.

The next meeting will be held on Tuesday, March 5$^{th}$ at 7.30 p.m.